SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN ADDYSG YNG NGHYMRU

# BWLETIN MISOL

## HYDREF 2023







SSCE CYMRU

CLILC WLGA

# Negeseuon gan dîm SSCE Cymru...



## Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol De Cymru

*"Mae mis Hydref wedi cyrraedd, a gobeithio eich bod chi'n cael dechrau da i'r tymor newydd! Mae wedi bod yn wych cwrdd ag ysgolion wrth i'r flwyddyn academaidd newydd ddechrau, i gyflwyno fy hun a thrafod sut y gallant gefnogi eu plant milwyr ymhellach. Rwyf wedi bod mor falch bod cymaint o ysgolion â diddordeb mewn gweithio tuag at eu statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru, os hoffech mwy o wybodaeth am hyn, cysylltwch â ni!*

*Mae rhai digwyddiadau hwyliog wedi bod yn digwydd yn Ne Cymru. Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf ddau ddiwrnod hwyliog i blant y Lluoedd Arfog mewn partneriaeth â Ffitrwydd Awyr Agored Abertawe (SoFit), a oedd yn cynnwys cwrs rhwystrau arddull filwrol, bocsio, ioga, ymwybyddiaeth ofalgar a mwy! Roedd hi'n hyfryd cwrdd â chymaint o blant y Lluoedd Arfog, eu cyfoedion a rhieni/gofalwyr yn y digwyddiadau hyn. Roedd hefyd yn bleser mynd draw i Ysgol Gynradd Pencoed ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar a chymryd rhan mewn sesiwn Ysgol Goedwig gyda chlwstwr Pencoed. Cadwch lygad ar ein gwefan ar gyfer digwyddiadau sydd i ddod, ac os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech i mi fod yn rhan o unrhyw beth sydd gennych yn digwydd, byddwn wrth fy modd yn dod felly cysylltwch â ni."*

**Ellis, Ellis.Regan@rctcbc.gov.uk**

## Swyddog Arweiniol Cyfranogiad



*"Mae tîm SSCE Cymru wedi bod yn brysur gydag ambell brosiect cyffrous newydd, fel lansio ein gwobr Seren y Mis fis diwethaf. Rydym yn gweithio gyda chymaint o arwyr di-glod, llysgenhadon plant y Lluoedd Arfog a chydweithwyr, sy'n ein helpu i gyflawni ein cenhadaeth eu bod yn haeddu 'shout out' am eu hymdrechion a'u cefnogaeth barhaus. Edrychwn ymlaen at dynnu sylw at rai o'r sêr hyn yn ystod y flwyddyn hon. Allwch chi fod yn un? Hefyd ar ddiwedd y mis hwn, rydyn ni yn ymuno â'n cydweithwyr o'r Tîm Cyn-filwyr i ddathlu Gwobrau Plant y Lluoedd Arfog cyntaf Cymru. Bydd hwn yn gyfle gwych i glywed gennych, ein plant / pobl ifanc y Lluoedd Arfog. Roeddwn yn falch o weld bod cymaint o enwebiadau o bob rhan o Gymru. Pob lwc i'r holl gystadleuwyr ar y rhestr fer!"*

**Jo, Joanna.wolfe@wlga.gov.uk**

SSCE CYMRU

CLILC WLGA

## Uwch Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol

*"Rydw i mor gyffrous i fod yn ôl gyda'r tîm ar ôl naw mis i ffwrdd! Mae wedi bod yn wych clywed am yr holl waith caled y mae'r ysgolion a'r awdurdodau lleol wedi bod yn ei wneud i barhau â'u cefnogaeth i blant y Lluoedd Arfog, rwy'n edrych ymlaen at weithio ochr yn ochr â'r RSLOs i ddatblygu cefnogaeth a darpariaethau a gweld mwy o ysgolion yn cyflawni eu statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru."*

**Yasmin,** Yasmin.Todd@pembrokeshire.gov.uk



**CROESO NOL YAZZ!!!**

Rydyn ni i gyd yn gobeithio eich bod chdi wedi cael amser hyfryd gyda babi hyfryd Freya tra oeddech chi ar gyfnod mamolaeth! Croeso yn ôl ☺




ssce CYMRU

CLILC WLGA

Mae hwn yn gyfle i'n tîm gydnabod SEREN SSCE Cymru yn gyhoeddus, a dweud diolch wrth blentyn Milwyr, aelod o staff ysgol, cydweithiwr gwaith, aelod o'r rhwydwaith neu sefydliad sydd wedi cydweithio'n gadarnhaol â ni neu wedi dangos cefnogaeth eithriadol i blant milwyr mewn addysg a'u cymuned Lluoedd Arfog lleol. Rydym yn ddiolchgar i weithio gydag unigolion a grwpiau gwirioneddol ysbrydoledig sy'n sicrhau bod plant y Lluoedd Arfog yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u dathlu yma yng Nghymru.

## Seren of the month – Hydref 2023

Mae wedi bod yn bleser gweithio gyda Sarah yn Ysgol Pen y Bryn. Fel mam i dri ac yn briod i aelod sy'n gwasanaethu i'r Lluoedd Arfog, mae gan Sarah brofiad uniongyrchol o'r ffordd hon o fyw ac o ganlyniad, roedd yn deall pwysigrwydd sefydlu Clwb 'Little Troopers' yn yr ysgol. Mae hyn wedi rhoi cyfle i blant Milwyr yn yr ysgol ddod at ei gilydd yn rheolaidd, rhannu eu profiadau unigol a chael hwyl. Diolch Sarah a Thîm Ysgol Pen y Bryn! Plîs cadwch fyny'r holl waith gwych!



**Sarah Hayward**
**Ysgol Pen y Bryn**

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth am Seren y Mis SSCE Cymru.

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN ADDYSG YNG NGHYMRU

Lansiwyd Ysgolion sy’n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru yn 2022. Mae ysgolion yng Nghymru yn cwblhau cyfres o weithgareddau a chamau gweithredu sy'n gysylltiedig â Rhestr Wirio Ysgolion SSCE Cymru, gan gynnwys rhai elfennau gorfodol, er mwyn cyflawni eu statws Efydd, yna Arian ac yna Aur. Yr amcanion yw ymgorffori arfer da ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog, creu amgylchedd cadarnhaol i blant y Lluoedd Arfog rannu eu profiadau ac annog ysgolion i ymgysylltu'n well â’u chymuned Lluoedd Arfog.

**Y mis hwn, rydym yn falch o longyfarch yr ysgolion canlynol:**

- Ysgol Gynradd Cwmclydach (Rhondda Cynon Taf) am ennill eu statws arian.
- Ysgol Uwchradd Haverfordwest (Sir benfro) am fod yr ysgol uwchradd gyntaf yng Nghymru i ennill statws Aur.

**Llongyfarchiadau** i bob ysgol sydd wedi cyflawni eu statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru. Hyd yn hyn, mae, 14 ysgolion wedi cyflawni eu statws efydd, 4 ysgolion wedi ennill arian a 3 ysgolion wedi cyrraedd Aur!!!

14

4

3

Cliciwch yma am rhagor o wybodaeth am Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru.

# Adnoddau...

## E-ddysgu SSCE Cymru

Mae tîm SSCE Cymru yn gyffrous iawn i fod yn y broses o weithio gyda Walkgrove Ltd i ddatblygu pecyn hyfforddi ar alw, dwyieithog e-ddysgu NEWYDD ar 'Cefnogi plant milwyr mewn addysg yng Nghymru', yn seiliedig ar gynnwys y sesiynau DPP sydd wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus gan yr RSLOs dros y blynyddoedd diwethaf.

YN DOD YN FUAN!!

## SSCE Cymru Service family guide

**Mae Canllaw Teuluoedd y Lluoedd Arfog SSCE Cymru bellach ar gael yn Nepaleg.**

Diolch yn fawr i Gyngor Sir Powys am sicrhau'r cyllid i sicrhau bod yr adnodd gwerthfawr hwn ar gael i hyd yn oed mwy o deuluoedd milwyr yng Nghymru elwa ohono!

Ar gael yma

## Cyfnodolyn SSCE Cymru

Gweler y cyfnodolyn newydd SSCE Cymru am fanylion a lluniau o'r hyn y mae'r tîm wedi bod yn ei wneud yn ddiweddar!

Gweler cyfnodolyn SSCE Cymru yma

NEWYDD!!!

## Rhestr wirio SSCE Cymru

**Mae adnodd 1 SSCE Cymru (Rhestr wirio: Gweithrediadau a gweithgareddau Ysgol) wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n ddiweddar.**

Mae'r fersiwn newydd yn cynnwys cyfeiriadau at Ddeddfwriaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog ac mae'n nodi'n glir y camau sy'n gysylltiedig â statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru.

Ar gael yma

## Adnoddau hyrwyddo SSCE Cymru

Mae gan SSCE Cymru daflen hyrwyddo a phosteri newydd! Plis defnyddiwch yr adnoddau hyn i helpu i godi ymwybyddiaeth o SSCE Cymru.

Cysylltwch â SSCECymru@wlga.gov.uk os hoffech unrhyw gopïau corfforol.

Ar gael yma

# Digwyddiadau...

## Gwobrau plant y Lluoedd Arfog Cymru 2023

**Llongyfarchiadau i'r holl gystadleuwyr yn y rownd derfynol o'r categorïau canlynol:**

- Cyfraniad at Chwaraeon
- Llysgennad Plentyn Milwrol y Flwyddyn
- Gwobr Gymunedol
- Gwobr Arwr Tawel

**Edrychwn ymlaen at ddathlu gyda chi ar 28ain Hydref!**

**Gweler manylion y rownd derfynol yma**

## Cynhadledd flynyddol Cynghrair SCiP2023

**Dydd Mercher 29 Tachwedd 2023**
**Birmingham**

Cysylltu gweithwyr proffesiynol â thystiolaeth ac â'i gilydd i gefnogi teithiau plant y Lluoedd Arfog i fywydau ffyniannus.

**Gweler mwy o fanylion a thocynnau yma**



## Cofio 2023

### Diwrnod y Cofio 2023

**11 Tachwedd 2023**

Mae diwrnod y Cofio yn anrhydeddu'r rhai sy'n amddiffyn ein rhyddid democrataidd a'n ffordd o fyw.

### Gweithdai Barddoniaeth Fyw Cyfnod Allweddol 2

**3, 4 & 5 Hydref 2023**

Gweithdai barddoniaeth am ddim yn archwilio Cofio drwy ddychymyg, creadigrwydd a pherfformiad!

### Adnoddau Dysgu Cofio

Wedi'i gynhyrchu gan y Lleng Brydeinig Frenhinol, mae'r holl adnoddau:

- Ar gael ar gyfer cyfnodau allweddol 1, 2 a 3 a grwpiau ieuenctid
- Yn cynnwys cynlluniau gwersi, gweithgareddau brathog a chynulliadau i gefnogi athrawon a rhieni
- Am ddim ac yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cenedlaethol - Gwahaniaethir i ddarparu cefnogaeth a her
- Ar gael yn Gymraeg.

**Gweler gwefan SSCE Cymru am ragor o wybodaeth, cyngor ac adnoddau**

SSCE CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN ADDYSG YNG NGHYMRU

# Gŵyl y Lluoedd 2023 – Gorllewin Cymru

**Mae SSCE Cymru yn gwahodd plant y Lluoedd Arfog a'u cyfoedion i Ŵyl y Lluoedd yng Ngorllewin Cymru!**

**Dyddiad:** 11 Hydref 2023

**Amser:** 10:00 – 14:30

**Lleoliad:** Haverfordwest High VC School, Pembrokeshire, SA61 2NX

**Dewch am ddiwrnod llawn gweithgareddau hwyliog gan gynnwys:**

- Sesiwn ‘Forces Fitness’
- Gweithgaredd barddoniaeth / ysgrifenu caneuon ‘Never Such Innocence’
- Gweithdy Rhyfel Byd Cymru.

**Ewch i wefan SSCE Cymru i archebu!**

**11 Hydref 2023**

GWEITHDY RHYFEL BYD CYMRU
WORLD WAR WALES WORKSHOP

NEVER SUCH INNOCENCE

FORCES FITNESS

ARMED FORCES COVENANT
LLUOEDD ARFOG CYFAMOD

# Cyllid…

## Cronfa Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg yng Nghymru

Yn 2023/24, gall ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru wneud cais am gyllid drwy gydol y flwyddyn, i gyflwyno prosiectau sy'n benodol i gefnogi plant milwyr mewn addysg, sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm yng Nghymru.

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

- Prosiectau £1,000 - agored i bob ysgol ac awdurdod lleol yng Nghymru.
- Prosiectau £5,000 – Agored i ysgolion sydd wedi cyflawni eu statws Efydd Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru a'r holl awdurdodau lleol

**Gweler gwefan SSCE Cymru am ragor o wybodaeth**

**DYDDIAD CAU NESAF: 27ain Hydref**

## Ddogfen cyngor cyllido SSCE Cymru

Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyngor gan dîm SSCE Cymru ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, i'w cynorthwyo wrth wneud cais am gyllid i gefnogi plant milwyr / cymuned leol y Lluoedd Arfog. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys rhestr wirio o gamau gweithredu awgrymedig i helpu wrth baratoi a chwblhau cais am gyllid a rhestr o syniadau ac awgrymiadau cyllido.

**Ar gael yma**

## Cefnogaeth rheoli achosion SSCE Cymru

Mae cefnogaeth rheoli achosion ar gael i ysgolion sydd â phlentyn Lluoedd Arfog unigol neu nifer fach iawn o blant y Lluoedd Arfog sydd ag angen penodol sy'n gysylltiedig ag effaith ffordd o fyw'r Lluoedd Arfog.

**Gweler ragor o wybodaeth yma**

ssce CYMRU

CLILC WLGA